

# Adolygiad o drefniadau mabwysiadu cenedlaethol



## Cynnwys

Cyflwyniad	4
Cefndir	5
Casgliadau cyffredinol	7
Crynodeb o'r canfyddiadau	8
Siartiau data	12

# 1. Cyflwyniad

## Pam y cynhaliwyd yr adolygiad?

I sefydlu'r graddau y mae:

a) Trefniadau arwain a rheoli'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol:

- Wedi sefydlu cyfeiriad strategol clir sy'n bodloni disgwyliadau a nodau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Yn arddangos gweledigaeth ac uchelgais clir ar gyfer y rheiny sy'n cael eu heffeithio gan fabwysiadu

b) Mae gan bob awdurdod lleol ddealltwriaeth glir a rennir o ba elfennau o'r gwasanaeth mabwysiadu:

- Y mae'n parhau i'w cyflawni'n unigol
- Sy'n cael eu cyflawni'n gydweithredol fel rhan o'r swyddogaethau partneriaethol (gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol)
- Sy'n cysylltu â nodau eang y cyd-drefniadau mabwysiadu yng Nghymru

c) Y gwasanaeth mabwysiadu wedi trafod a diffinio ei berthynas waith gydag adrannau addysg, byrddau iechyd ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol perthnasol mewn perthynas â chymorth mabwysiadu a gwasanaethau a gomisiynir.

d) Y trefniadau mabwysiadu rhanbarthol wedi rhoi mecanweithiau effeithiol ar waith, yn unol â'r fframwaith y cytunwyd arno'n genedlaethol, i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Casglwyd tystiolaeth i gefnogi'r prif ganfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad cenedlaethol hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Canfyddiadau o ddau hunanwerthusiad a gwblhawyd gan y pum gwasanaeth rhanbarthol sy'n adlewyrchu cynnydd y gwaith o weithredu Cyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015
- Dadansoddiad o ddata'r gwasanaeth mabwysiadu a gasglwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer cyfnodau 2015/16 a 2016/17

Cyfweliadau gyda'r canlynol:

- Cadeirydd Bwrdd Llywodraethiant y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Y Cadeirydd Annibynnol, Grŵp Cyngori'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Aelodau o Fwrdd Llywodraethiant y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Aelodau o Grŵp Cyngori'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Penaethiaid gwasanaethau plant o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru

- Cyfarwyddwr Gweithrediadau a staff o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

## 2. Cefndir i'r adolygiad

Datblygwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn dilyn argymhellion gan bwyllgor a grŵp cynghori gweinidogol Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â'r rheoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O ganlyniad, diwygiwyd Adran 3 (1) o Ddeddf Mabwysiadu 2002 i fynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu trefniadau penodol gyda'i gilydd mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau mabwysiadu. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu Cyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015, a ddaeth yn sgil y newidiadau uchod. Nod y trefniadau yw sicrhau darpariaeth gyson o wasanaethau mabwysiadu o safon uchel ledled Cymru. Mae'r trefniadau wedi'u nodi ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Gyda'i gilydd, cyfeirir at y trefniadau ar y cyd hyn fel y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.


Mae'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu o dan y ddeddfwriaeth yn aros yn nwylo'r awdurdodau lleol unigol. Mae'n ofynnol bod yr awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

- Cydweithredu â'i gilydd yn rhanbarthol, fel y nodir yn y canllawiau
- Gwneud trefniadau i sefydlu bwrdd llywodraethiant cenedlaethol a grŵp cynghori
- Penodi cyfarwyddwr gweithrediadau cenedlaethol

Caiff swyddogaethau'r strwythur triphlyg eu nodi yn y canllawiau. Mae'r cyfarwyddwr gweithrediadau cenedlaethol a'r bwrdd llywodraethiant cenedlaethol yn gyfrifol am fonitro a goruchwyllo'r pum corff cydweithredol rhanbarthol, ond nid oes ganddynt bwerau i gyflwyno newidiadau yn y polisiau na'r arferion, nac i gyfarwyddo'r ffordd y caiff adnoddau rhanbarthol eu defnyddio.

Daeth y trefniadau i rym ym mis Mawrth 2015, ond roedd peth o'r gwaith eisoes wedi'i gwblhau, gan alluogi lansiad y gwasanaeth cenedlaethol ym mis Tachwedd 2014. Tair blynedd yn ddiweddarach, mae'r trefniadau llywodraethiant yn sefydlog ac wedi'u deall. Fodd bynnag, maent yn gymhleth, yn enwedig o ran y rhyngwyneb rhwng y swyddogaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Nid oes gan Arolygiaeth Gofal Cymru bwerau i arolygu'r trefniadau cenedlaethol, ond mae'n gyfrifol am arolygu'r gwasanaethau mabwysiadu a reoleiddir yn y man y cânt eu darparu. Cytunodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i hwyluso'r adolygiad hwn o elfennau cenedlaethol y gwasanaeth, fel y gellid gweld hyn ochr yn ochr â'r adolygiad rhanbarthol o'r cynllun peilot. Nod yr adolygiad hwn yw edrych ar yr effaith y mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi'i chael ar wella gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.

## Strwythur y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol



© Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

**Yn lleol**, mae pob awdurdod lleol yn nodi ac yn diwallu anghenion y plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rheiny lle y mae penderfyniad wedi'i wneud y dylai'r plentyn gael ei fabwysiadu.

**Yn rhanbarthol**, mae awdurdodau lleol yn cydweithio o fewn pum corff cydweithredol rhanbarthol. Mae ganddynt gysylltiadau cryf â gwasanaethau mabwysiadu gwirfoddol, a gwasanaethau iechyd ac addysg.

**Yn genedlaethol**, mae'r awdurdodau lleol yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau canolog; mae'r bwrdd llywodraethiant, y grŵp cyngori ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn cydweithio fel y Bartneriaeth Fabwysiadu Wirfoddol Strategol.

Caiff y trefniadau hyn eu cynnal gan amrediad o ddogfennau cynhwysfawr sy'n amlinellu cylch gorchwyl, protocolau a chytundebau partneriaeth y gwasanaeth. Mae'r cyfathrebu a'r cysylltiadau rhwng yr haenau gwahanol yn cael eu diffinio a'u deall yn glir gan y rhanddeiliaid. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn hawdd dilyn y ffordd y mae'r argymhellion a wnaed ar lefel genedlaethol yn effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

Mae swyddogaethau pob lefel o'r gwasanaeth yn benodol, ond mae natur gymhleth mabwysiadu, ynghyd â'r diffyg rheolaeth dros y niferoedd o blant sy'n ddarostyngedig i orchymyn lleoli a'r niferoedd o fabwysiadwyr sydd ar gael, yn peri her i ystythder y gwasanaeth wrth ymateb i alw newidiol.

### 3. Casgliadau cyffredinol

Mae'r plant a'r teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan fabwysiadu wedi elwa ar gyfeiriad a diben clir y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru. Mae lefel uchel o fuddsoddiad wedi bod o ran amser swyddogion wrth ffurfio'r trefniadau sy'n sail i'r gwasanaeth cenedlaethol. Caiff mecanweithiau llywodraethiant eu deall yn dda, ond maent yn gymhleth a gallant fod yn rhwystr wrth gyflwyno fframwaith cenedlaethol.

Mae cyfeiriad strategol a rennir ar waith, ac mae rhanddeiliaid wedi neilltuo amser ac adnoddau i weithio'n greadigol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n bodoli wrth ddarparu gwasanaeth mabwysiadu cyson ac o ansawdd uchel. Mae hyn wedi codi proffil mabwysiadu ar draws gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus.

Mae natur anrhagweladwy y niferoedd o blant sy'n cael eu gwneud yn ddarostyngedig i orchymnion mabwysiadu, ynghyd â'u proffil o anghenion amrywiol a chymhleth, yn cael effaith anochel ar ystwythder y gwasanaeth o ran recriwtio digon o leoliadau mabwysiadu addas.

Mae'r trefniadau i ddarparu'r gwasanaeth ledled Cymru yn aros yn anghyson. Er y gall hyn fod yn ymateb i amgylchiadau lleol, gall effeithio ar amseroldeb y gwaith o gyflwyno strategaeth genedlaethol, ac mae'n gwneud effeithiolrwydd safonau ansawdd yn heriol i'w weithredu.

Mae'r trefniadau wedi cefnogi'r gwaith o greu partneriaethau cynhyrchiol â sefydliadau'r trydydd sector, sydd wedi arwain at rannu arfer da mewn modd gwell yn ogystal â mentrau creadigol ac addawol ar gyfer y dyfodol.

Mae gwelliannau yn y gwaith o gasglu a dadansoddi data perfformiad ar lefel genedlaethol wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu proffil cywir o wasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Mae hyn yn amlygu'r gwahaniaethau rhanbarthol ac yn nodi meysydd i'w gwella.

Mae dealltwriaeth gyffredin o ran rhwystrau, er mwyn gwella canlyniadau a gweld pa adnoddau sydd eu hangen. Er bod amseroldeb wrth fabwysiadu plant wedi gwella, mae'r niferoedd o blant sy'n aros am leoliad mabwysiadu priodol wedi amrywio, ac yn dechrau codi eto yn 2016/17.

Gwnaed cynnydd wrth wella safonau cyson ar gyfer y gwasanaeth, gyda mentrau fel datblygu canllaw arfer gorau ar ganfod teuluoedd a chyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer cymorth mabwysiadu.

Mae rhai elfennau o'r gwasanaeth, y nodwyd bod angen eu gwella – fel gwaith taith bywyd a llythyron yn hwyrach mewn bywyd – yn dibynnu'n rhannol ar y capasiti o fewn gwasanaethau plant ar gyfer elfennau o'r gwaith.

## 4. Crynodeb o'r canfyddiadau

### Cwestiwn

A yw trefniadau arwain a rheoli'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi gwneud y canlynol:

- sefydlu cyfeiriad strategol clir sy'n bodloni disgwyliadau a nodau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- arddangos gweledigaeth ac uchelgais clir ar gyfer y rheiny sy'n cael eu heffeithio gan fabwysiadu

### Crynodeb o'r canfyddiadau

- Mae cyfeiriad strategol cryf wedi'i sefydlu ar gyfer y gwasanaeth, a gaiff ei amlygu gan y gydnabyddiaeth a rennir o'r proffil uwch sydd gan fabwysiadu ledled Cymru, ynghyd â'r cytundeb cyffredinol ynghylch y gwelliannau sydd eu hangen.
- Roedd rhanddeiliaid yn arddangos lefel uchel o ymroddiad ac arbenigedd i gefnogi'r uchelgais o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson. Mae rhanddeiliaid yn realistig ynghylch yr heriau wrth gyrraedd eu nodau.
- Gwnaed ymdrechion cryf i ddatblygu mentrau cenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â materion allweddol, fel recriwtio mabwysiadwyr i ddiwallu anghenion plant sydd â chynllun mabwysiadu, a chynyddu argaeledd cymorth mabwysiadu amserol ac effeithiol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae nifer y plant sy'n aros am leoliad mabwysiadu yn cynnydd unwaith eto.
- Mae dull cynhwysol i'r gwaith o arddangos y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o gydgyhyrchu a galluogi mabwysiadwyr a'u teuluoedd i rannu eu profiadau i lywio arfer gwell.
- Gwnaed ymdrech frwd i sefydlu proffil data perfformiad cywir, a all lywio strategaeth a gwelliant yn y gwasanaeth yn y dyfodol.
- Mae'n anodd dangos sut y gall mentrau cenedlaethol effeithio'n uniongyrchol ar wella cysondeb ar draws rhai meysydd o'r gwasanaeth. Er enghraifft, mae cymorth therapiwtig yn parhau i gael ei ddisgrifio fel 'loteri cod post'.
- Mae gwaith sydd wedi'i gwblhau'n genedlaethol i wella mynediad mabwysiadwyr at gyngor a gwybodaeth a chyhoeddi cymorth ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu mewn ysgolion yn hyrwyddo cydgyfrifoldebau ac yn cynyddu dealltwriaeth.



## **Cwestiwn**

A oes gan bob awdurdod lleol ddealltwriaeth glir a rennir o ran pa elfennau o'r gwasanaeth mabwysiadu:

- mae'n parhau i'w darparu'n annibynnol
- sy'n cael eu darparu'n gydweithredol fel rhan o swyddogaethau'r bartneriaeth (gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol)
- sy'n cysylltu â nodau eang y trefniadau mabwysiadu ar y cyd yng Nghymru?

## **Crynodeb o'r canfyddiadau**

- Mae gan bob un o'r pum gwasanaeth rhanbarthol gytundeb partneriaeth ar waith sy'n amlinellu'r cyfrifoldebau a'r swyddogaethau mae'n gyfrifol amdanynt. Mae rhai cytundebau wedi'u hadolygu ond nid yw'n glir p'un a yw effeithiolrwydd unrhyw ddull penodol yn cael ei rannu'n rheolaidd.
- Nid yw'r trefniadau llywodraethu yn gyson ar draws y rhanbarthau. Er enghraifft, nid yw pennaeth pob gwasanaeth yn rhan o fwrdd rhanbarthol. Gall hyn effeithio ar amseroldeb y gwaith o gyflwyno penderfyniadau a newidiadau mewn strategaethau.
- Roedd cyd-ddealltwriaeth o gymhlethdod y gwasanaeth a'r meysydd i'w gwella wedi'u dangos yn glir.
- Mae dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae proffil data gwell y gwasanaeth wedi ffurfio'r strategaeth genedlaethol. Mae llai o eglurder ynghylch y ffordd y mae dadansoddi data yn lleol yn ffurfio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau neu recriwtio mabwysiadwyr yn unol ag anghenion plant.
- Mae'r holl gytundebau yn ymgorffori nodau eang y trefniadau mabwysiadu ar y cyd yng Nghymru. Mae dealltwriaeth eang o ran yr heriau sy'n bodoli wrth gyrraedd y nodau hyn, o ystyried natur anrhagweladwy'r galw a'r anallu i effeithio ar argaeledd mabwysiadwyr arfaethedig.
- Gallai'r trefniadau rheoli amlhaenog fod yn rhwystr rhag gwella effeithiolrwydd cymorth di-dor ar gyfer cyfnod pontio plentyn rhwng gwasanaethau plant a'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol.
- Mae diffyg eglurder ynghylch y ffordd y mae strategaethau rhanbarthol, sydd ar waith i yrru gwelliant, yn gweithio ochr yn ochr â'r dull cenedlaethol.

## Cwestiwn

A yw'r gwasanaeth mabwysiadu wedi negodi a diffinio ei berthynas waith gydag adrannau addysg, byrddau iechyd ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol perthnasol o ran cymorth mabwysiadu a gwasanaethau a gomisiynir?

## Crynodeb o'r canfyddiadau

- Mae cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn anghyson; mae wedi bod yn anodd i fyrddau rhanbarthol gyflawni presenoldeb rheolaidd gan rai asiantaethau partner.
- Mae perthnasau gwaith cadarnhaol rhwng asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol a byrddau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae cydweithio a chydberchenogi yn digwydd wrth gynllunio a ffurfio gwasanaethau.
- Mae aelodau partner unigol y byrddau cenedlaethol a rhanbarthol yn darparu cymorth da ar gyfer datblygiad y gwasanaeth mabwysiadu, a gellir gweld bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion. Mae'r mecanweithiau ar gyfer dylanwadu ar fyrddau iechyd neu ar wasanaethau addysg i weithredu argymhellion ar gyfer gwella ledled Cymru yn eu dyddiau cynnar. Mae rhai datblygiadau addawol a thraws-sector wedi cael eu gwneud, megis creu cysylltiadau rhanbarthol gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- Mae'r trefniadau ar gyfer comisiynu cymorth mabwysiadu yn amrywio. Un gwasanaeth rhanbarthol yn unig sydd â chyllideb gyfun, ond adroddwyd bod hyn yn gweithio'n effeithiol cyn belled â bod y gwasanaeth priodol ar gael. Mae problemau yn bodoli o ran argaeledd yr amrediad o wasanaethau sydd eu hangen a'u hygyrchedd mewn rhai lleoliadau. Mae un gwasanaeth rhanbarthol wedi negodi mynediad uniongyrchol at wasanaeth seicolegol, sy'n darparu cymorth amserol ac effeithiol.
- Mae'n anodd asesu effaith mentrau cadarnhaol cenedlaethol ar arfer lleol. Er enghraifft, mae'r gwaith o hyrwyddo hyfforddiant a deunydd darllen ar 'ymwybyddiaeth mabwysiadu' yn anelu at wella cymorth gydag addysg. Adroddwyd bod cynnydd wrth ymgysylltu ag ysgolion mewn rhai rhanbarthau, ond mae'n anodd canfod sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau i blant sydd wedi'u mabwysiadu.
- Mae pob rhanbarth yn ymgysylltu â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ond, eto, nid yw'n amlwg bod y gwaith hwn yn arwain at unrhyw welliannau pendant i blant sydd wedi'u mabwysiadu a theuluoedd sydd angen cymorth.

## Cwestiwn

A oes gan y trefniadau mabwysiadu rhanbarthol fecanweithiau effeithiol ar waith, yn unol â'r fframwaith y cytunwyd arno'n genedlaethol, i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl?


## Crynodeb o'r canfyddiadau

- Gwnaed ymdrech frwd i ddatblygu mecanweithiau effeithiol ar draws y strwythur rhanbarthol. Gwnaed cynnydd da gyda'r gwaith o gynllunio busnes a chasglu data, yn unol â'r fframweithiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae meysydd i'w datblygu yn amrywio o ranbarth i ranbarth, ac mae rhai o'r meysydd hyn oherwydd y lefelau amrywiol o adnoddau sydd ar gael.
- Mae'r gwaith sydd wedi'i gwblhau wedi canolbwyntio'n glir ar wella ansawdd gwasanaethau mabwysiadu. Mae nifer o fentrau creadigol wedi'u treialu, ac mae cyfleoedd da i gyfathrebu'n effeithiol er mwyn rhannu arfer da rhwng rhanbarthau.
- Mae angen gwneud rhagor o waith ar y ffordd y mae'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol yn gallu cael ei gefnogi'n well i effeithio ar amseroldeb ac ansawdd gwaith taith bywyd mewn modd cyson. Mae gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol brosiect gweithredol yn gweithio ar hyn.
- Mynegodd penaethiaid gwasanaeth lefel uchel o hyder yn eu gallu i ddilyn cynnydd plant unigol ac i fonitro perfformiad y gwasanaethau rhanbarthol. Caiff cydweithio ei werthfawrogi ond mae gwahaniaethau rhanbarthol yn bodoli, fel telerau ac amodau ar gyfer staff a chyllidebau gwasanaethau cymorth ar wahân.
- Mae meddu ar ystwythder i ailffurfio adnoddau er mwyn rheoli'r galw sy'n dod i'r amlwg yn her: yn genedlaethol, ni ellid eu hatgyfeirio ac, yn y mwyafrif o achosion, nid yw hyn ychwaith yn digwydd ar lefel ranbarthol. . Nid yw'r newidiadau ym mhroffil y plant a chanddynt gynllun mabwysiadu nac argaeledd mabwysiadwyr addas yn ddigon rhagweladwy i alluogi newidiadau amserol mewn strategaethau recriwtio. Ni ellir gwarantu argaeledd nifer digonol o fabwysiadwyr addas.
- Yn genedlaethol, gwnaed ymdrech sylweddol i gynnwys y rheiny sy'n cael eu heffeithio gan fabwysiadu yn y gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau. Yn bennaf oll, nodwyd bod angen i'r holl wasanaethau rhanbarthol wella'r gwaith o sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn ymgysylltu ac yn cyfrannu at asesu a gwella ansawdd a datblygiad y gwasanaeth ar lefel ranbarthol.

## Siartiau data


Mae'r data hwn yn cynnwys cyfnodau o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 ac o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017. Mae wedi'i adrodd gan y gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol ac nid yw wedi'i ddilysu.

**Ffigur 1:** Y nifer o blant a osodwyd i'w mabwysiadu




Adroddwyd bod y lleihad yn y nifer o blant sy'n cael eu mabwysiadu yn 2016/17 oherwydd y gostyngiad yn nifer y gorchmynion lleoli a wnaed, cyfuniad o gynnydd mewn grwpiau sibliogaidd a phlant a chanddynt anghenion ychwanegol, ac effaith y gwaith o recriwtio sy'n targedu anghenion plant, sydd wedi arwain at leihad yn y nifer o fabwysiadwyr sy'n cael eu recriwtio.

**Ffigur 2:** Y nifer o orchmynion mabwysiadu a roddwyd




Mae'r lleihad yn y niferoedd yn dangos yr her wrth gynllunio'r gwaith o recriwtio o gwmpas galw newidiol.

**Ffigur 3:** Y nifer o blant a ddylai fod wedi cael penderfyniad ar leoliad nay ydynt wedi'u gosod i'w mabwysiadu eto




Mae'r cynnydd yn y niferoedd o blant sy'n aros i gael eu lleoli o ganlyniad i ddiffyg lleoliadau mabwysiadu addas a digonol ar gyfer grwpiau siblingiaid, plant hŷn, a'r rheiny sydd ag anghenion cymhleth.

**Ffigur 4:** Cyfartaledd (cymedr rhifyddol) mewn nifer o ddiwrnodau y cymerwyd i blant a osodwyd i'w mabwysiadu i symud o ddyddiad penderfyniad 'Dylid eu Gosod i'w Mabwysiadu' i ddyddiad lleoliad mabwysiadu




Mae'r ffigurau hyn yn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud yn genedlaethol i wella amseroldeb o ran lleoli plant.

**Ffigur 5:** Y nifer o fabwysiadwyr posib yn derbyn penderfyniad asiantaeth i'w cymeradwyo fel rhai priodol i fabwysiadu




Roedd diffyg eglurder ynghylch pam fod llai o fabwysiadwyr wedi'u cymeradwyo yn 2016/17. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn priodoli hyn i ddull recriwtio sydd wedi'i dargedu'n fwy. Yn ystod y blynyddoedd blaenorol, roedd gormod o bobl yn dymuno mabwysiadu babanod. Mae'r lleoliadau hyn wedi'u llenwi ond mae'r nifer o bobl sy'n dymuno mabwysiadu babanod neu grwpiau siblingiaid wedi gostwng.

**Ffigur 6:** Y nifer o fabwysiadwyr posib nay ydynt yn symud ymlaen o ymweliad cychwynnol i gais i fabwysiadu




Gallai'r gostyngiad yn y niferoedd o fabwysiadwyr arfaethedig nad ydynt yn bwrw ymlaen ar ôl yr ymweliad cychwynnol ddynodi ansawdd gwell yr wybodaeth sydd ar gael i helpu pobl i benderfynu ynghylch bwrw ymlaen â chais.

**Ffigur 7:** Cyfartaledd (cymedr rhifyddol) mwen nifer o ddiwrnodau y mae'n cymryd i fabwysiadwyr posib symud o ymholiad cychwynnol i benderfyniad asiantaeth i'w cymeradwyo fel addas i fabwysiadu




Nid yw wedi bod yn bosibl adrodd ar yr amser o gyflwyno'r cais ffurfiol i gymeradwyo'r cais, oherwydd y prosesau rhanbarthol amrywiol. Caiff dadansoddi ac asesu perfformiad eu cwblhau yn rhanbarthol.

**Ffigur 8:** Cymhariaeth Cymru gyfan o'r nifer o blant a osodwyd i'w mabwysiadu, y nifer o blant a osodwyd i'w mabwysiadu a gafodd asesiad am gymorth mabwysiadu, a'r nifer o blant a osodwyd i'w mabwysiadu y trafodwyd eu cynllun ar gyfer cymorth mabwysiadu




Mae'r siart uchod yn nodi gwelliant cyson yn y trefniadau ar gyfer cynnig cymorth mabwysiadu. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddadansoddi'r canlyniadau.

**Ffigur 9:** Cymhariaeth Cymru gyfan o'r nifer o blant a osodwyd i'w mabwysiadu lle y rhoddwyd lwfans mabwysiadu parhaus a'r nifer o blant a osodwyd i'w mabwysiadu lle y darparwyd un taliad ariannol




Ni wnaeth pob rhanbarth gasglu data am y nifer o lwfansau mabwysiadu y cytunwyd arnynt yn 2015/16, felly nid yw hyn yn ddarlun cywir, ond mae'n dal i gynrychioli gostyngiad o ran cytundebau lwfansau yn 2016/17. Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch pam mai dyma oedd yr achos. (Noder: nid yw'r niferoedd hyn yn cynnwys y rheiny a oedd eisoes yn derbyn cymorth cyn 2016/17)

**Ffigur 10:** Y nifer o blant yr oedd eu lleoliad ar gyfer mabwysiadu yn methu'n barhaol rhwng dyddiad y lleoliad ar gyfer mabwysiadu a chyn y gorchymyn mabwysiadu



Caiff pob amhariad ei adolygu ac mae'r gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu ar draws rhanbarthau, ond nid yn genedlaethol hyd yn hyn.

**Ffigur 11:** Y nifer o blant sy'n derbyn gofal mewn blwyddyn ariannol y mae'n hysbys iddynt gael eu mabwysiadu o'r blaen



Mae'r niferoedd hyn yn cynrychioli'r plant sydd wedi'u mabwysiadu yn y blynyddoedd blaenorol, fel yr adroddwyd i'r gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn casglu'r data hyn fel rhan o'r set ddata. Caiff y canlyniadau i blant sy'n dychwelyd i'r system ofal eu monitro trwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol.



## Cydnabyddiaethau

Dymuna'r arolygiaeth ddiolch i'r cyfranogwyr canlynol a restrir isod am eu holl help a chydweithrediad gyda'r adolygiad hwn:

- Y Cadeirydd Annibynnol, Bwrdd Llywodraethiant y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;
- Y Cadeirydd Annibynnol, Grŵp Cyngori'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;
- Aelodau o Fwrdd Llywodraethiant y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;
- Aelodau o Grŵp Cyngori'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;
- Penaethiaid gwasanaethau plant 22 o awdurdodau lleol;
- Cyfarwyddwr Gweithrediadau a staff o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.